Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

## TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLI350

**Amseru: Unigol**

**Teitl: Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Adeiladu**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes: Ystadau**

**Crynodeb Gweithredol:**
Bydd y contract cyfredol trosglwyddo Mân Waith Cyfalaf yn dod i ben yn ystod y cyfnod ariannol nesaf, ar y sail hon cynhaliwyd proses tendro ffurfiol yn defnyddio Fframwaith Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Adeiladu Gwasanaethau Busnes a Rennir y GIG. Cymerodd naw parti â diddordeb ran i gychwyn, a derbyniwyd tri chais a oedd yn cydymffurfio, ar gyfer darparu Contract Gwasanaethau Ymgynghoriaeth Adeiladu am dymor 3 blynedd gychwynnol, gydag opsiwn i ymestyn am 2 flynedd. Cyfanswm y tymor yw 5 mlynedd hyd at Awst 2029. Y model wrth symud ymlaen fydd i HDP gyflogi gwasanaethau ymgynghori gyda'n darparwr dewisedig, ac yna defnyddio Fframweithiau adeiladu ehangach fel Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De Orllewin Cymru i gyflawni gweithgarwch y gwaith.

**Argymhelliad:**
Yn dilyn cwblhau'r ymarfer tendro, yr argymhelliad yw dyfarnu'r contract i Atkins Realis Cyf. Roedd hyn ar y sail bod Atkins Realis wedi sgorio'n uwch na chyflwyniadau eraill a dderbyniwyd ar asesiad Ansawdd Cost.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dvddiad: 28/10/2024**